

EISTEDDFOD BRYCHEINIOG A MAESYFED 1918

Cystadleuaeth 380 Rhyddiaith

380/1 Ffugenw: Aoibh Lewis

Yma cawn ddisgrifiad o'r paratoi a pherfformio'r ddrama Nadolig yn yr ysgol. Er mai iaith syml a geir, mae mwynhad y plentyn yn dod yn glir trwy'r ysgrifennu a'r darlunio lliwgar. Mae'n amlwg dy fod wedi dechrau cael blas ar ysgrifennu yn y Gymraeg. Dal ati oherwydd mi wnes fwynhau dy stori'n fawr.

380/2. Ffugenw: Rwdlan

Paragraff agoriadol gwyh i stori Rwdlan. Mae'n bwrw'r darllenwr yn syth i mewn i'r stori sy'n symud yn ei blaen ar ras gydag ambell saib i gael bwyd - dair gwaith a dweud y gwir ac mae'r disgrifiadau o'r bwyta hyd yn oed yn fwy bywiog na'r cyfnodau yn y dydd pryd fydd Rwdlan yn gwisgo lan. Defnyddia ddisgrifiadau megis "Sglaffiais fy mrecwast mewn llai na eiliad nes oedd fy nghoco pops..... yn un slwj yn dop fy mheipen fwyd". Chwarddais yn uchel ond yn anffodus, teimlaf bod yr ysgrifennwr wedi mwynhau'r bwyta yn well na'r gwisgo lan. Eto i gyd, mae Rwdlan yn ysgrifennwr addawol dros ben gyda dyfodol disglair o'i flaen ac mae ei ddefnydd o'i dafodiaith yn ddifyr iawn. Diolch am wneud imi chwerthin.

380/3. Ffugenw: Y Dywysoges Hud

Profiad hapus yr awdur pan fu'n forwyn briodas ac wedi gwisgo lan mewn ffrog hardd yw cynnwys ysgrifennu'r Dywysoges Hud. Mae'n llwyddo i roi inni holl fanylion a chyffro'r diwrnod hapus ac yn creu darlun clir i ni. Mae ei mwynhad i'w deimlo'n eglur trwy'r ysgrifennu ac, felly, yn rhoi mwynhad i'r darllenwr. Da iawn ti.

380/4. Ffugenw: Blodwen

Hwyrach nad yw'r stori hon yn eistedd yn hawdd gyda'r testun *Gwisgo Lan" gan nad oes yna wisgo yn digwydd tan y paragraffau olaf ond mae'n stori dda iawn ac yn agos at frig y gystadleuaeth. Mae'r ysgrifennu'n aeddfed a graenus gyda'r paragraff agoriadol yn hynod effeithiol wrth ddisgrifio ffrogiau sydd yn "hir fel trê" neu'n "agor fel blodau". Mae'n hawdd anghofio oed Blodwen wrth ddarllen. Ysgrifennwr addawol dros ben a chefais bleser mawr wrth ddarllen y stori oedd yn llawn dychymyg gyda'r iaith yn llifo'n rhugl.

380/5 Mabli

Cafwyd syniad am raglen newydd i S4C yn stori Mabli. Cymer hi a nifer o ffrindiau ran yn "Gwisgoedd Gwych Cymru". Ceir yma wisgo lan mewn dillad lliwgar gan ddisgrifio tensiwn cyhoeddi'r wobr gyntaf yn effeithiol. Ni theimlaf bod rhan gyntaf y stori am gael cwpwrdd newydd yn ychwanegu at y stori; mae'n bwysig ystyried bod angen i bob paragraff, brawddeg ac hyd yn oed air haeddu ei le mewn stori fer. Buaswn hefyd wedi hoffi cael llai o gymeriadau a disgrifiadau mwy manwl o'r gwisgoedd deniadol. Syniad gwreiddiol ac edrychaf ymlaen at weld dy sioe ar y teledu rhyw ddydd.

380/6 Y Dewin Dwl

Yn stori'r Dewin Dwl cawn nifer o olygfeydd byrion lle mae'r Capten a'i griw yn cael eu cludo mewn llong ofod o un golygfa i'r llall. Nid tan ddiwedd y stori sylweddolwn mai gwisgo lan yn ei gartref mae'r awdur ifanc. Hoffais y diwedd lle cafwyd eglurhad a rhoddwyd clo taclus i ddiwedd y stori. Byr iawn yw pob golygfa a byddai'n bosibl datblygu pob un ohonynt i fod yn stori ar ei phen ei hun. Hoffais rhai delweddau fel yr "estron yn crïo dagrau yn llawn sleim" a "bwyta brechdan sêr". Y tro nesa hoffwn mwy o ddisgrifiadau tebyg fyddai'n helpu rhoi cnawd ar sgerbwdd y stori.

380/7. Ffugenw: Tylluan

Taid sydd yn destun y gwisgo lan y tro hwn ond daw tro yng nghynffon y stori wrth i Taid gael ei ddal gan gloch y drws ffrynt pan mae'n edrych yn ysblennydd yn y dillad mae Mia a Nel wedi gwisgo amdano. Hoffais symlwrwydd y stori a'i chynildeb. Roedd y disgrifiad o wisg Taid yn creu darlun clir ohono druan gyda'r olwg "boenus" ar ei wyneb. Llifodd y stori'n rhwydd gyda'r sgwrsio rhyngddynt yn naturiol. Ymgais dda.

380/8 Yr Anifeiliaid Od

Stori hyfryd sy'n dangos bod gan y storiwr gryn ddychmyg. Taith i'r sŵ sydd yma ond nid y plant sy'n gwisgo lan ond, yn hytrach, yr anifeiliaid. Gwnes fwynhau gwreiddioldeb y stori ac roedd yr ysgrifennu'n llifo'n hawdd. Efallai nad oedd yr ysgrifennu'n gynnwl gyda gormod o gymeiriadau a theimlais nad oedd diben i ambell ran. Er hynny, mae'r stori'n dangos addewid. Dal ati.

380/9. Ffugenw: Clemmie.

"Swpergirl" yw'r wisg ffansi y tro hwn a chawn ddisgrifiad llawn ohoni yn y paragraff cyntaf. Ceir tri antur yn dilyn y gwisgo lan. Fy hoff syniad oedd yr ail lle daw Swpergirl i achub merched ar iard yr ysgol rhag y bachgen drwg, Tom. Gwnaeth ddefnyddio pwerau hudol i leihau maint Tom i dair centimetr gan sicrhau na fydd yn poeni'r merched eto. Stori ddifyr.

380/10 Pêl -droed

Nid oedd y ffugenw yn rhoi'r cliw cywir am brif ddi-ddordeb y storiwr yma. Mae'n amlwg taw rygbi sydd yn tanio'i ddychmyg. Erbyn diwedd ei stori, wrth roi crys coch amdano, caiff ddiwrnod braf yn chwarae i Gymru, y Scarlets a'i dîm lleol ac, wrth gwrs, ennill bob tro. Brawddegau syml byrion a geir yma gydag atalnodi cywir ac mae'r stori'n llifo'n hwylus. Nid yw amser y ferf yn gyson bob tro. Byddwn, efallai, wedi mwynhau ysgrifennu gyda mwy o ddyfnder am un o'r gemau gan roi sylw i ddefnyddio cysyllteiriau yn hytrach nac atalnodi llawn a cheisio creu mwy o naws y profiad cyffrous drwy feddwl yn ofalus am ddefnyddio ansoddeiriau, adferfau ac ati. Diolch am gystadlu.

380/11. Ffugenw: Gwen

Stori dipyn yn wahanol oherwydd dyma'r unig ymgeisydd a gafodd ei gludo i fyd y milfeddyg pan brynodd mam wisg ffansi milfeddyg. Cefais fwynhad wrth ddarllen y gwaith ac, rydw i'n siwr, i Gwen ysgrifennu o brofiad. Nid yw'n glir p'un ai yw'r profiad yn un cynorthwyo milfeddyg go iawn ar ei daith o gwmpas neu, efallai, o weld milfeddyg wrth ei waith ar y fferm. Ta waeth, mae'r diwrnod yn dod yn fyw iawn wrth ddarllen er nad wyf yn sicr byddai milfeddyg yn rhoi llawdriniaeth i jiraff sydd wedi llyncu pêl mor hawdd neu a fyddai yn medru helpu sebra gollodd ei streipiau. Cyfuniad o ddychmyg a realiti mae'n siwr. Syml yw'r arddull gan nad yw'r defnydd o gysyllteiriau, er enghraifft, yn sefydlog eto. Diolch am y syniad gwreiddiol.

380/12. Ffugenw: Carys

Tybiaf bod y stori yma yn gwireddu breuddwyd i Carys wrth iddi gael llwyddiant ysgubol tra'n dawnsio'r Nutcracker ym Mharis. Yr anrheg ddaw tad-cu o America iddi, sef ffrog balerina, sydd yn ei chludo i'r llwyfan ac mae'r stori'n llawn o dermau'r ballet ynghyd â disgrifiadau o'r gwisgoedd lliwgar. Mae'r stori wedi ei strwythuro'n dda ond efallai byddai defnyddio cysyllteiriau yn hytrach nag atalnodi llawn yn gwneud i'r ysgrifennu lifo'n fwy effeithiol. Er hynny, gwnes fwynhau'r stori.

380/13. Ffugenw: Efs.

Mae yma amlinelliad sgript ffilm newydd "Bat Girl" dda yma. Hoffais ddisgrifiad o'r wisg gafwyd fel anrheg benblwydd; rhoddwyd darlun clir i mi. Cafwyd nifer o anturiaethau byrion ond efallai byddai cadw at

un ac ehangu ar hwnnw wedi bod yn well. Fy ffefrun oedd yr olaf pan ddaeth Bat Girl nôl i Gymru. Diolch am stori fywiog.

380/14. Ffugenw: Seb

Mae stori Seb yn sôn am yr hwyl o wisgo lan mewn dillad hudol sydd yn cludo dau ffrind, Jake a Steff, i fyd y môr leidr a'r marchog. Mae Seb yn dechrau arbrofi gydag atalnodi ac mae'r stori'n symud yn ei blaen yn bennaf drwy'r sgwrsio sy'n mynd ymlaen rhwng y ddau anturiaethwr. Mae yma ddigon o gyffro ond buaswn wedi mwynhau darllen rhannau mwy disgrifiadol i'r stori er mwyn rhoi awyrgylch ac i greu llun i mi wrth ddarllen am y castell a'r llong. Wrth lwc daeth y bechgyn i ben â thynnu'r dillad gwisgo lan cyn i'r ddraig gyrraedd! Diolch, Seb, am dy stori.

380/15 Ffugenw: Sali Mali

Stori syml am Mair sydd yn defnyddio hudlath y bocs gwisgo lan a chael ei hun ynghanol anifeiliaid a gododd ofn arni. Cynlluniwyd y stori'n ofalus gyda diwedd glo reit effeithiol. Mae Sali Mali yn dechrau defnyddio ansodderiau i liwio'r gwaith ac yn amrywio tipyn ar y brawddegau. Storiwr ifanc sydd yn dechrau datblygu ei sgiliau. Diolch am dy stori hyfryd.

380/16. Ffugenw: Cadi Fflur

Stori wreiddiol yn dangos llawer o ddychymyg sy'n mynd â ni i ddiwrnod Nadolig tra gwahanol i'r arferol. Ceir coeden hud yng ngardd mamgu a thwll cwningen sy'n sugno arwr y stori a mamgu gyda fe, i fyd ffantasi. Y goeden sy'n gwisgo'r cymeriadau tra bo Dafydd Iwan a'i gitar yn teyrnasu ar y cyfan. Dyma "fyd hudolus" Cadi Fflur. Mae yma ddigon o ymgais i liwio gyda geiriau gyda "chacennau cymylau ac enfys" a'r "tai fel madarch gwyn". Ymdrech dda iawn.

380/19. Ffugenw: Haf

Credaf bod Haf wedi ysgrifennu am ddiwrnod Calan Gaeaf yn Efrog Newydd allan o brofiad personol oherwydd mae'r ysgrifennu'n llawn manylion am y gwisgoedd, yr addurniadau a'r hwyl a geir yn y ddinas ar y diwrnod arbennig hwn. Dwi ddim mor siwr am y dewin hud. Naill ai mae'r ysgrifennwr wedi defnyddio ychydig o'i ddychymyg neu mae'r dewin hwn yn dalentog dros ben wrth wneud i Freddie hofran ac i dân ddod allan o lyfr wrth ei agor! Mae'r ysgrifennu'n gryno a phob brawddeg yn ennill ei lle i wneud darn diddorol a gafaelgar. Diolch am ddod â'r profiad o Galan Gaeaf yn Efrog Newydd yn fyw i mi.

380/20. Ffugenw: Twtsen

Mae Twtsen yn dechrau cael mwynhad wrth ysgrifennu ac yn ei stori caiff hwyl wrth geisio dewis pa wisg ddylai wisgo i fynd i barti. Ceir cnewyllyn stori dda yma ac mae digon o le i ddatblygu'r syniadau. Beth am ddisgrifiad o'r wisg a ddewisaist a byddwn wedi mwynhau tipyn o hanes y parti. Roedd yr ysgrifennu'n gywir ar y cyfan ac hoffais ddiwedd glo'r stori. Cadw i ysgrifennu, Twtsen.

380/21 Ffugenw: Elsa

Stori hyfryd, Elsa. Cludwyd Elsa, a fi gyda hi, i Disneyland oedd yn lle llawn lliw, cerddoriaeth a dawns. Mae'r ysgrifennu'n gywir a cheir ambell ddefnydd addawol o iaith megis lle "hudolus", "pob lliw a llun" a phob"lliw dan yr haul". Dal ati i fwynhau ysgrifennu storïau, Elsa.

380/22. Ffugenw: Twincl.

Ym mreuddwyd Twincl caiff ei gludo i helynt yn y gofod. Defnyddia'i ddychymyg wrth roi disgrifiad effeithiol o gamu o'r roced. I Twincl mae'r gofod yn lle "hudolus" a themla'n siomedig pan yn deffro yn ei

wely ar yr eiliad pan oedd ar fin achub y byd rhag cael ei daro gan gomet. Uchafbwynt y stori i mi oedd ei ddisgrifiad o'r gofod a buaswn wedi hoffi ehangu ar hwn. Diolch am dy stori hyfryd.

380/23. Ffugenw: Yr Wyddfa

Hoffais y ffordd mae'r storiwr fel pe bai yn siarad yn uniongyrchol â'r darllenwr yn y stori hon. Mae yma ambell dinc o hiwmor oedd yn dal fy sylw. Efallai bod yma ormod o gymeriadau; mewn stori fer fel hon byddai rhyw dri yn hen ddigon a rhaid i bob un fod â rhan i'w chwarae yn y plot. Er hynny, mae yna ffresni i syniadau Yr Wyddfa a gwnes fwynhau darllenn y stori.

380/24 Ffugenw: Gigi

Stori fer syml sydd yma. Mae Gigi yn defnyddio lluniau cyfrifiadurol i ychwanegu at y stori'n effeithiol. Defnyddia batrymau sylfaenol yn gywir i gyfleu'r stori. Pob hwyl iti gyda dy ysgrifennu.

380/25. Ffugenw: Superted

Er nad yw hi'n stori hir mae'n stori gyflawn. Caiff Superted helynt ar ei ffordd i'r ysgol wrth achub bywyd plentyn sydd ar fin rhedeg allan i'r ffordd beryglus. Mae'r iaith yn llifo'n hawdd a dechreu'r ysgrifennwr ddefnyddio brawddegau mwy cymhleth gan amrywio ar eu strwythur sy'n ychwanegu at yr ysgrifennu. Yn dy stori nesaf ceisia wneud mwy o hyn. Dal ati!

380/26. Ffugenw: Guto Prydderch

Cryfder y stori yma yw'r hiwmor yn y diwedd glo. Mae syniad y stori'n ddigon syml wrth i frawd a chwaer wisgo i fyny fel archarwyr ac achub y dydd yng nghegin mam wrth iddi wneud tost. Mae'r sgwrsio rhwng mam a'r plant yn rhedeg yn naturiol ac mae'r ysgrifennwr yn dechrau defnyddio geiriau i liwio'r ysgrifennu megis "crasboeth", a "mwgwd du fel y nos". Diolch am stori reit ddoniol.

380/28. Ffugenw: Deinosor

Ar ôl gwisgo lan fel gofodwr a phili pala aiff yr ysgrifennwr a'i ffrind Elsi am ddiwrnod i'r gofod. Symuda'r stori yn ei blaen trwy'r sgwrsio rhwng y ddau ac mae weithiau'n anodd dilyn ei rhediad. Er hynny, mae'r syniad yn hyfryd ac mae'r stori'n llawn cyffro. Byddai disgrifio'r gwisgoedd a'r seren wib, er enghraifft, rhwng y sgwrsio wedi gwneud dy stori'n fwy diddorol ac haws i'w dilyn. Tybed beth ddigwyddodd i Neli oedd heb wisg ar ddechrau'r stori?

380/29. Ffugenw: Jeri

Ceir nifer o straeon mewn un yma wrth i ddillad gwisgo lan ein cludo i gastell, i'r gofod ac o dan y môr. Hwyrach byddai cynilo ar y digwyddiadau wedi bod yn well ond fy hoff ran oedd darganfod y trysor o dan y môr. Gyda chymorth tylwythen deg ceir trysor gwerth chweil. Un o gryfderau ysgrifennu Jeri yw ei fod yn dechrau amrywio dechrau ei frawddegau; ceir "Yn sydyn", "Ar ôl", "Yn ofalus" sydd llawer mwy diddorol na'r gair "wedyn". Dal ati, Jeri.

380/30. Ffugenw: Sam

Stori hyfryd am wisgo fel brenhines sydd gan Sam. Caiff helynt yn y goedwig wrth achub aderyn bach tra gwylia'r frân ddu uwchben. Mae'r Gymraeg yn llifo'n naturiol er mae'n anodd dilyn rhediad y stori oherwydd dim ond dechrau meithrin sgiliau atalnodi mae Sam. Er hynny, mi ddaw'r ysgrifennu wrth i'r sgiliau ddatblygu oherwydd mae yma'r syniadau am stori dda.

380/31. Ffugenw: Mr Urdd

Mae Sam Tân y stori hon yn dipyn o gymeriad a chefais hwyl yn darllen am ddiwrnod caled o waith i Sam pan oedd tân yn yr ysgol. Mae'n stori'n gyflawn gyda chyffyrddiadau o hiwmor yn enwedig yn y ffrawddeg olaf sydd yn rhoi diwedd glo campus i'r stori. Mae'r sgwrsio rhwng y cymeriadau'n naturiol ac yn rhwydd. Da iawn, Mr Urdd.

380/32. Ffugenw: Anna

Mae'n amlwg bod Anna wedi cael hwyl yn ysgrifennu ei stori am amryw o helyntion sy'n digwydd wrth wahodd ffrindiau i ymuno â hi i wisgo lan. Buaswn i'n meddwl bod Anna yn hoffi chwedlau oherwydd defnyddia rhai o gonfensiynau chwedl dda fel ail ddweud ambell i ymadrodd megis, yn ei stori hi, "ond ond ond.....". Ni chredaf bod gan y stori gynllun pendant o'r dechrau; yn hytrach mae'r ysgrifennwr yn cael ei chludo o un lle i'r llall wrth iddi gael ei harwain gan gyffro'r stori. Felly, nid yw'n stori gynnil, strwythuredig ond daeth brwdfrydedd Anna yn glir trwy'r ysgrifennu.

380/33. Ffugenw: Tom

Stori syml pan mae'r ysgrifennwr yn gwisgo lan fel gwenynen ac, ynghyd â'r gath, Simi, yn cael antur yn y goedwig pan gwrddant â'r cadno drwg. Stori sydd yn llawn hwyl ac wedi ei strwythuro'n dda gyda'r addewid o hwyl pellach gyda'r gath a'r llwynog drannoeth. Diolch am dy stori.

380/34. Ffugenw. Dona Direidi.

Stori ddigon difyr ac awn i'r sw y tro hwn. Yn anffodus, nid yw'r stori wir yn dechrau tan bron ddiwedd yr ysgrifennu oherwydd mae Dona Direidi wedi gwario rhan helaeth o'r stori yn rhoi cefndir yn ei le yn hytrach na bwrw i mewn i'r stori o'r cychwyn cyntaf. Bydd aeddfedrydd a phrofiad yn datblygu'r sgiliau oherwydd buaswn wedi hoffi clywed llawer mwy am y diwrnod yn y sw. Y stori nesaf, efallai.

380/35. Ffugenw: Loli

Hoffais iaith naturiol y sgwrsio yn stori Loli rhwng yr arwres, Elsa, a'r ferch fach Casi. Gyda'r marchog wrth ei hochr mae'n achub y ferch fach. Sgwn i pam oedd y ferch fach yn crïo yn y goedwig a phwy oedd y marchog? Roedd lle yma i ehangu tipyn ond pa ffordd well i gloi stori na gydag hufen iâ.

380/36. Ffugenw: Ungorn Hud

Daeth y stori hon yn agos i'r brig oherwydd ei bod yn stori lle mae'r cyfan yn gwau at ei gilydd i greu cyfanwaith darllenadwy dros ben. Yn y stori ceir ci bach, Lisi, a'r tro hwn y ci sy'n gwisgo lan yng nghoron y dywysoges. Dilyna'r stori Lisi wrth iddi redeg trwy'r pentref. Mae'r camddeall sy'n codi o'r sefyllfa yn eitha cymhleth ond mae Ungorn Hud yn llwyddo i ddod â'r cyfan ynghyd yn dwt i'r diwedd. Mae'r iaith yn llawn bywyd sy'n gwneud i'r stori lifo a dal sylw'r darllenwr. Ymdrech dda iawn.

380/37. Ffugenw: Mecanic.

Stori wreiddiol. Yr unig stori yn y gystadleuaeth lle roedd gwisgo coron y frenhines yn gwneud i Gethin, y prif gymeriad, fod yn fecanic heb ei ail! Teimlaf bod Mecanic yn seilio ei stori ar ei brofiadau personol sydd yn rhoi cymeriad i Gethin yn y stori. Nid yw'n stori hir ond mae'n gyflawn ac wedi ei hysgrifennu'n gywir ar y cyfan hablaw am ambell wall atalnodi. Hoffais yr amrywiaeth yn hyd brawddegau'r ysgrifennwr ac mae yma'r potensial i ehangu ar y syniadau sydd yma i greu stori effeithiol iawn. Cadw i ysgrifennu.

380/38. Ffugenw: Aaron Ramsey

Peth braf oedd darllen stori lle roedd y cysyniad oedd yn gefndir i'r stori mor annisgwyl. Diwrnod gwisgo lan mewn ysgol ar y blaned Gwener sy gyda ni gyda'r plant, am y tro, yn gwisgo lan fel pobl o'r ddaear. Mae yma nifer o chyffyrddiadau bach doniol megis y rhieni wedi gwisgo lan fel Theresa May a Donald

Trump a cheffais gipolwg ar fywyd dydd i ddydd y blaned Gwener. Byddai wedi bod yn braf datblygu'r agwedd yma ar y stori. Gwnes fwynhau ei darllen yn fawr.

380/40. Ffugenw: Y Corrach

Braf oedd cael stori wedi ei lleoli'n gadarn ar arfordir godidog Sir Benfro a gwisg nofio môr forwyn sydd yn arwain at antur Sioned. Mae'r môr a'i greaduriaid yn llenwi'r stori. Nid yw'n stori gymhleth ond mae'n ddifyr iawn. Diolch am ysgrifennu stori oedd wedi fy nghludo i lan y môr yn yr haf ar brynhawn gaeafol.

380/41. Ffugenw: Miss Fach Annibynnol.

Stori ddifyr am ferch sy'n gwisgo lan fel tylwythen deg ac yn achub bocs dawnsio'r tylwyth teg rag ddwylo Jac y Rhew. Mae yma arwyddion bod yr ysgrifennwr yn dechrau arbrofi gyda geirfa wrth inni gael disgrifiadau trawiadol fel "dagrau sgleiniog yn rhoio lawr ei bochau" a'r castell wedi ei greu "allan o rew pigfain". Mae'n stori gyflawn ac yn symud yn hwylus yn ei blaen. Dal ati i ysgrifennu.

380/42. Ffugenw: Martha

Rhaid dweud, Martha, bod diwrnod colli dant yn ddiwrnod tu hwnt o gyffrous a gwnes fwynhau darllen dy stori. Mae'r digwyddiad yn ysgogi Martha i wisgo lan fel tylwythen deg ac mae'n diddori ei hun trwy'r dydd tan ddaw amser gwely a dyfodiad y dylwythen deg go iawn. Mae'r ysgrifennwr yn dechrau defnyddio cymariaethau megis rhedeg i fyny'r grisiau "fel mellten" ac ansoddeiriau fel "adenydd sgleiniog" i liwio'r ysgrifennu. Mae hon yn stori ychydig yn wahanol i'r arfer. Diolch am gystadlu.